


Camwybodaeth a Thwyllwybodaeth: Adolygiad Llenyddiaeth

Dysgu am ragduddiad, cyffredinrwydd,
effaith a chamau lliniaru

Mai 2025



Cynnwys

Crynodeb Gweithredol	3
Deall pa mor agored yw pobl i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth	5
Cyffredinrwydd ac effeithiau.....	14
Camau lliniaru: Opsiynau, Costau, Effeithlonrwydd	19
Crynodeb.....	27

Crynodeb Gweithredol

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi trosolwg o'r llenyddiaeth academiaidd a llwyd sydd ar gael ar gamwybodaeth a thwyllwybodaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar y dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer y Deyrnas Unedig.

Y bwriad yw ateb y cwestiynau a ganlyn:

- Beth yw natur camwybodaeth a thwyllwybodaeth?
- Sut ydyn ni'n mesur pa mor gyffredin yw camwybodaeth a thwyllwybodaeth?
- Pwy sy'n dueddol o gredu camwybodaeth a thwyllwybodaeth?
- Pa ymyriadau a mesurau lliniaru sy'n effeithiol yn erbyn camwybodaeth a thwyllwybodaeth?

Prif ganfyddiadau

- **Mae llenyddiaeth ar gamwybodaeth a thwyllwybodaeth yn parhau i ganolbwyntio i raddau helaeth ar yr Unol Daleithiau.** Yr ardaloedd daearyddol mwyaf cyffredin ar ôl hynny yw'r Deyrnas Unedig a gwledydd Ewropeaidd eraill, gydag ychydig iawn o waith ysgolheigaidd yn canolbwyntio ar Dde'r Byd.
- **Mae astudiaethau ar ragduddiad i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth yn tueddu i ganolbwyntio ar ymchwilio i agweddau tymor byr ar gamwybodaeth a thwyllwybodaeth, gan gynnwys effeithiolrwydd ymyriadau posibl.** Mae'r samplau'n tueddu i fod yn seiliedig ar yr Unol Daleithiau. Yn aml, nid ydynt yn gynrychioliadol yn genedlaethol ac maent yn dod o fannau fel Mechanical Turk, neu gan fyfyrwyr. Mae astudiaethau'n tueddu i ddefnyddio methodolegau sy'n seiliedig ar arolygon ac arbrofion ac yn tueddu i beidio ag ystyried yr effeithiau tymor hwy ar ymyriadau ar ymddygiad ac agweddau.
- **Prin yw'r dystiolaeth o ragduddiad i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig.** Mae hyn yn bennaf oherwydd y gwaith ysgolheigaidd cyfyngedig sydd ar gael ar gamwybodaeth a thwyllwybodaeth yn y Deyrnas Unedig. Mae llawer o'r ymchwili yn y maes hwn yn canolbwyntio ar ragduddiad i ddamcaniaethau cynllwyn.
- **Nid oes dystiolaeth glir bod grwpiau penodol o bobl yn eu hanfod yn fwy neu'n llai agored i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth.** Er bod astudiaethau wedi archwilio llawer o wahanol ddemograffeg a'u rhagduddiad posibl, nid oes consensws rhwng astudiaethau.
- **Mae llenyddiaeth ar gamwybodaeth a thwyllwybodaeth yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ddau bwnc: Camwybodaeth/twyllwybodaeth sy'n gysylltiedig â COVID-19 a chamwybodaeth wleidyddol.** Mae llai o ddarnau o ymchwili ar gamwybodaeth a thwyllwybodaeth ehangach sy'n gysylltiedig ag iechyd, a llai ar gamwybodaeth a thwyllwybodaeth am newid yn yr hinsawdd.
- **Mae llenyddiaeth ar fesurau lliniaru yn erbyn camwybodaeth a thwyllwybodaeth yn canolbwyntio i raddau helaeth ar ddau faes a dull: ymwybyddiaeth o'r cyfryngau (er enghraifft, rhybuddion ffynhonnell a phaneli gwybodaeth) a gwirio ffeithiau.** Mae mesurau lliniaru eraill yn cynnwys cymedroli cynnwys, atebion ar ffurf gemau, dosbarthu iaith yn awtomataidd ymysg eraill.
- **Er bod sefydlu cysylltiad achosol yn parhau i fod yn heriol, mae llenyddiaeth yn nodi sawl niwed yn y byd go iawn sy'n gysylltiedig â chamwybodaeth a thwyllwybodaeth.** Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau iechyd, cymdeithasol a strwythurol.

Ar draws y llenyddiaeth, mae diffiniadau o gamwybodaeth, twyllwybodaeth a chysyniadau cysylltiedig fel damcaniaethau cynllwynio yn wahanol. Fodd bynnag, mae nodweddion cyffredin ymysg y diffiniadau gwahaniaethol a ddefnyddir, ac at ddibenion yr adolygiad hwn o lenyddiaeth, rydym yn defnyddio'r diffiniadau a ganlyn:

- **Camwybodaeth:** strategaeth rethregol sy'n cynhyrchu ac yn lledaenu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol, sy'n lledaenu'n anfwriadol, ac sy'n tueddu i ddrysu, dylanwadu, niweidio, ysgogi neu ddadysgogi cynulleidfa.¹
- **Twyllwybodaeth:** strategaeth rethregol sy'n cynhyrchu ac yn lledaenu gwybodaeth ffug neu gamarweiniol mewn ymdrech fwriadol i ddrysu, dylanwadu, niweidio, ysgogi neu ddadysgogi cynulleidfa darged.²
- **Damcaniaeth gynllwyn:** cred bod dau neu fwy o actorion wedi cydlynu'n gyfrinachol i gyflawni canlyniad a bod eu cynllwyn o ddiddordeb i'r cyhoedd ond nid yn wybodaeth gyhoeddus. Damcaniaethau cynllwyn:
 - a.) maent yn wrthwynebol, sy'n golygu eu bod yn gwrthwynebu dealltwriaeth gyhoeddus o ddigwyddiadau;
 - b.) maent yn disgrifio gweithredoedd maleisus neu waharddedig;
 - c.) maent yn priodoli gweithredu i unigolion a grwpiau yn hytrach nag i rymoedd amhersonol neu systemig;
 - d.) maent yn peri risg epistemig, sy'n golygu er nad ydynt o reidrwydd yn ffug neu'n annhebygol, gyda'i gilydd maent yn fwy tueddol o fod yn ffug na mathau eraill o gredoau; ac
 - e.) maent yn luniadau cymdeithasol sydd nid yn unig yn cael eu mabwysiadu gan unigolion ond sy'n cael eu rhannu ag amcanion cymdeithasol mewn golwg, ac mae ganddynt y potensial nid yn unig i gynrychioli a dehongli realiti ond hefyd i lunio realiti cymdeithasol newydd.³

Yn gyffredinol, mae'r llenyddiaeth ar gamwybodaeth a thwyllwybodaeth yn parhau i ganolbwyntio ar gynulleidfaoedd yn yr Unol Daleithiau, gyda'r rhan fwyaf o astudiaethau ar amlygu a lliniaru camwybodaeth a thwyllwybodaeth yn cael eu cynnal ar samplau yn yr Unol Daleithiau ac yn canolbwyntio ar gynulleidfaoedd yn yr Unol Daleithiau.

¹ Spies, Samuel, 2019, [Defining "Disinformation"](#), *MediaWell*, cyhoeddwyd 22 Hydref 2019, cyrchwyd 25 Gorffennaf 2024

² Spies, Samuel, 2019, [Defining "Disinformation"](#), *MediaWell*, cyhoeddwyd 22 Hydref 2019, cyrchwyd 25 Gorffennaf 2024

³ Douglas, Karen M.; a Sutton, Robbie M. (2023): ["What Are Conspiracy Theories? A Definitional Approach to Their Correlates, Consequences, and Communication"](#), *Annual Review of Psychology*, 74, tt. 271-298;

Deall pa mor agored yw pobl i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth

Mesur pa mor agored yw pobl i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth

Er gwaethaf cynnydd yn y sylw a roddwyd i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth gan ymchwilwyr academiaidd a chymdeithas sifil yn ystod ac ar ôl pandemig COVID-19, ychydig o ymchwil sydd wedi ei chynnal i'r hyn sy'n gwneud pobl yn agored i gredu camwybodaeth a thwyllwybodaeth. Mae'r ychydig o waith ymchwil sy'n bodoli yn aml yn benodol i bwnc, yn ogystal ag yn benodol i ardal ddaearyddol (er enghraifft, astudiaethau yn yr Unol Daleithiau sy'n edrych ar gysylltiad pleidiol).

Ffactorau unigol

Gall ffactorau sy'n ymwneud â nodweddion unigolion, fel oedran, rhywedd, ethnigrwydd ac eraill, effeithio ar ba mor agored ydynt i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth.

Fodd bynnag, mae'r llenyddiaeth sy'n ymchwilio i ba mor agored yw pobl i ragdueddiadau yn gyfyngedig, ac yn aml ni all ddod i gasgliadau achosol pendant. Mae astudiaethau'n aml yn seiliedig ar arolygon ac yn nodi cydberthyniadau, fel: 'mae pobl sydd â nodwedd X yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn credu mewn camwybodaeth a thwyllwybodaeth', yn hytrach nag awgrymu cysylltiad achosol rhwng nodwedd a chred benodol neu dueddiad i fod yn agored i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth.

Mae rhai astudiaethau hefyd wedi cynnig esboniadau mwy cyffredinol ynghylch pam gallai unigolyn fod yn fwy agored i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth.

Er enghraifft, mae trosolwg o ymchwil seicolegol yn awgrymu bod pobl yn cael eu denu at ddamcaniaethau cynllwyn pan nad yw tri math o anghenion seicolegol yn cael eu diwallu:

- **Anghenion epistemig:** yr awydd am ddealltwriaeth, neu gywirdeb, neu sicrwydd goddrychol.
- **Anghenion bodolaethol:** yr awydd am reolaeth neu ddiogelwch.
- **Anghenion cymdeithasol:** yr awydd i gynnal delwedd gadarnhaol o'i hun neu o fewn y grŵp.⁴

Mae'r trosolwg yn nodi bod ymchwil seicolegol hefyd yn awgrymu bod credu mewn damcaniaethau cynllwynio yn gryfach ymysg pobl sy'n chwilio'n gyson am ystyron neu batrymau yn eu hamgylchedd. Ar ben hynny, mae'r gred mewn damcaniaethau cynllwynio yn gryfach pan fydd digwyddiadau sylweddol ar raddfa fawr (fel pandemig neu ymosodiad terfysgol ar raddfa fawr) yn digwydd ac yn gadael pobl yn anfodlon ag esboniadau cyffredin, ar raddfa fach.⁵

⁴ Douglas, Karen M.; Sutton, Robbie M., a Cichoka, Aleksandra, 2017, [The Psychology of Conspiracy Theories](#), *Current Directions in Psychological Science*, 26:6, tt. 538-542,

⁵ Douglas, Karen M.; Sutton, Robbie M., a Cichoka, Aleksandra, 2017, [The Psychology of Conspiracy Theories](#), *Current Directions in Psychological Science*, 26:6, tt. 538-542,

Yn yr adrannau a ganlyn, trafodir y llenyddiaeth ar y rhyngweithio rhwng rhagduddiad i gamwybodaeth, twyllwybodaeth a damcaniaethau cynllwyn a chred ynddynt, a nodweddion amrywiol, gan gynnwys oedran, rhywedd, lefelau incwm, lefelau addysg a mwyl.

Oedran

Rhoddodd astudiaeth yn 2021, a oedd yn edrych ar dueddiad i fod yn agored i gamwybodaeth iechyd yng nghyd-destun pandemig COVID-19, drosolwg o'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â thueddiad i fod yn agored i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth a pherthynas hynny ag amrywiol ffactorau demograffig. O ran oedran, canfu'r trosolwg fod nifer o astudiaethau wedi canfod bod pobl hŷn yn fwy agored i gamwybodaeth, gan nodi bod un ddamcaniaeth yn awgrymu bod oedolion hŷn yn tueddu i ddibynnu ar eu gwybodaeth bresennol wrth wynebu gwybodaeth newydd.⁶

Fodd bynnag, canfu astudiaeth arall fod 'lleiafrif nodedig o'r cyhoedd hefyd yn credu damcaniaethau cynllwynio am frechlyn COVID-19 – gyda chred arbennig o uchel ymysg pobl iau a'r rhai sy'n cael llawer o wybodaeth am y pandemig o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol'.⁷

Canfu Arolwg Truth Quest OECD, sef arolwg ar raddfa fawr sy'n mesur gallu unigolion mewn 21 o wledydd i adnabod cynnwys ffug a charmarweiniol, nad oedd gallu canfyddedig cyfranog'wyr' i adnabod cynnwys ffug a charmarweiniol ar-lein yn gysylltiedig â'u gallu mesuredig i wneud hynny. Canfu'r arolwg fod hyder o ran adnabod cynnwys ffug a charmarweiniol ar-lein yn tueddu i ostwng yn unol ag oedran.⁸

Ym mis Medi 2021, fel rhan o arolwg Ofcom o agweddau a defnydd unigolion yn y Deyrnas Unedig o newyddion a gwybodaeth am COVID-19, roedd y rhai o dan 35 oed yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi dod ar draws honiadau a allai fod yn ffug neu'n gamarweiniol na'r rhai dros 35 oed. (33% o bobl dan 35 oed o'i gymharu ag 20% o bobl 35 oed a hŷn).⁹

Canfu arolwg gan Adobe o dros 6,000 o unigolion ar draws sawl gwlad, gan gynnwys dros 2,000 o ymatebwyr yn y Deyrnas Unedig, mai dim ond 57% o unigolion sy'n teimlo'n hyderus eu bod yn gallu adnabod camwybodaeth. Fodd bynnag, canfu'r arolwg fod 1 o bob 4 o Genhedlaeth Z a ymatebodd yn y Deyrnas Unedig wedi cyfaddef eu bod wedi rhannu camwybodaeth yn ystod y chwe mis diwethaf, er bod 73% o'r rhai o Genhedlaeth Z a ymatebodd wedi dweud bod ganddynt hyder yn eu gallu i adnabod camwybodaeth. Cyfaddefodd 17% o ymatebwyr milflwyddol eu bod wedi rhannu camwybodaeth, gyda 70% o ymatebwyr milflwyddol yn dweud y gallent adnabod camwybodaeth yn hyderus. Cyfaddefodd 10% o ymatebwyr o Genhedlaeth X eu bod wedi rhannu camwybodaeth, a dywedodd 53% o ymatebwyr o Genhedlaeth X bod ganddynt hyder yn eu gallu i adnabod camwybodaeth. Roedd 4% o Genhedlaeth y Cynnydd (Baby Boomers) wedi cyfaddef eu bod wedi rhannu camwybodaeth, a dywedodd 37% ohonynt fod ganddynt hyder yn eu gallu i adnabod camwybodaeth.¹⁰

Mewn astudiaeth o 66,242 o unigolion o 24 o wledydd, lle mae cyfranogwyr yn cwblhau'r Prawf Rhagduddiad i Gamwybodaeth (MIST) ac yn nodi eu canfyddiad eu hunain o'u gallu i adnabod camwybodaeth, gwelodd Cenhedlaeth Z (a ddiffinnir yn yr astudiaeth hon fel y rhai a anwyd rhwng

⁶ Vidgen, Bertie; Taylor, Harry; Pantazi, Myrto; Anastasiou, Zoe; Inkster, Becky; a Margetts, Helen; 2021, [Understanding vulnerability to online misinformation](#), The Alan Turing Institute,

⁷ King's College London, 2020: [Coronavirus: vaccine misinformation and the role of social media](#), cyhoeddwyd 14 Rhagfyr 2020

⁸ OECD, 2024, [The OECD Truth Quest Survey: Methodology and Findings](#).

⁹ Ofcom, 2021. [Newyddion a gwybodaeth am Covid-19: defnydd ac agweddau](#), Canfyddiadau allweddol wythnos 76

¹⁰ Adobe, 2024. [Adobe Future of Trust Study Narrative \(UK\)](#), cyhoeddwyd 18 Ebrill 2024.

1997 a 2012), an-wryw, llai addysgedig, a mwy ceidwadol - eu bod yn fwy agored i gamwybodaeth. Fodd bynnag, er mai Cenhedlaeth Z a wnaeth waethaf yn y prawf, canfu'r ymchwil mai'r genhedlaeth hon oedd y rhai oedd yn gallu sylwi ar eu gallu i wahaniaethu ar sail camwybodaeth yn fwyaf cywir.¹¹

Rhyw

Rhoddodd astudiaeth yn 2021, a oedd yn edrych ar dueddiad i fod yn agored i gamwybodaeth iechyd yng nghyd-destun pandemig COVID-19, drosolwg o'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â thueddiad i fod yn agored i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth a pherthynas hynny ag amrywiol ffactorau demograffig. Canfu'r astudiaeth dystiolaeth anghyson ar sut mae rhywedd yn dylanwadu ar ragdueddiad at gamwybodaeth, gyda rhai astudiaethau'n canfod bod dynion yn fwy tebygol o rannu gwybodaeth am iechyd heb wirio ffeithiau, ac eraill yn canfod bod menywod yn fwy tebygol o rannu gwybodaeth o wefannau sy'n cynnwys newyddion ffug.¹²

Canfu arolwg o 4,343 o breswylwyr y Deyrnas Unedig gydberthynas gadarnhaol rhwng rhywedd benywaidd ac amheuo o gynllwyn.¹³

Canfu arolwg Truth Quest OECD nad oedd gallu canfyddedig cyfranog'wyr i adnabod cynnwys ffug a charmarweiniol ar-lein yn gysylltiedig â'u gallu mesuredig i wneud hynny. Canfu'r arolwg fod gan ddynion, ar draws pob gwlad, fwy o hyder yn eu gallu i adnabod cynnwys ffug a charmarweiniol ar-lein na menywod.¹⁴

Lefelau addysg

Rhoddodd astudiaeth yn 2021, a oedd yn edrych ar dueddiad i fod yn agored i gamwybodaeth iechyd yng nghyd-destun pandemig COVID-19, drosolwg o'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â thueddiad i fod yn agored i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth a pherthynas hynny ag amrywiol ffactorau demograffig. O ran lefelau addysg, mae sawl astudiaeth wedi canfod bod lefelau uwch o addysg yn gysylltiedig â llai o gred mewn damcaniaethau cynllwynio. Ar ben hynny, tynnwyd sylw at nifer o astudiaethau eraill a oedd yn awgrymu bod pobl â gallu gwybyddol uwch yn llai agored i gamwybodaeth, gyda rhai'n dangos bod unigolion sy'n rhesymu'n fwy dadansoddol yn llai agored i gamwybodaeth.¹⁵

Canfu arolwg Truth Quest OECD nad oedd gallu canfyddedig cyfranogwyr i adnabod cynnwys ffug a charmarweiniol ar-lein yn gysylltiedig â'u gallu mesuredig i wneud hynny. Canfu'r arolwg fod hyder o ran adnabod cynnwys ffug a charmarweiniol ar-lein yn tueddu i gynyddu yn unol â lefel addysg yr unigolyn.¹⁶

¹¹ Kyrychenko, Yara; J. Koo, Hyunjin; Maertens, Rakoën; Roozenbeek, Jon; van der Linden, Sander; Götz, Friedrich M., 2025. [Profiling misinformation susceptibility](#), *Personality and Individual Differences*, 241,

¹² Vidgen, Bertie; Taylor, Harry; Pantazi, Myrto; Anastasiou, Zoe; Inkster, Becky; a Margetts, Helen; 2021, [Understanding vulnerability to online misinformation](#), *The Alan Turing Institute*,

¹³ Allington, Daniel; McAndrew, Siobhan; Moxham-Hall, Vivienne; a Duffy, Bobby (2021): ["Coronavirus conspiracy suspicions, general vaccine attitudes, trust and coronavirus information source as predictors of vaccine hesitancy among UK residents during the Covid-19 pandemic"](#), *Psychological Medicine*, 53, tt. 236-247;

¹⁴ OECD, 2024, [The OECD Truth Quest Survey: Methodology and Findings](#).

¹⁵ Vidgen, Bertie; Taylor, Harry; Pantazi, Myrto; Anastasiou, Zoe; Inkster, Becky; a Margetts, Helen; 2021, [Understanding vulnerability to online misinformation](#), *The Alan Turing Institute*,

¹⁶ OECD, 2024, [The OECD Truth Quest Survey: Methodology and Findings](#).

Canfu arolwg o 4,343 o breswylwyr y Deyrnas Unedig fod ffactorau sy'n gysylltiedig ag oedi ynghylch brechu yn cynnwys lefelau isel o addysg.¹⁷

Ethnigrwydd

Yn ystod pandemig COVID-19, comisiynodd Ofcom arolygon rheolaidd o fis Mawrth 2020 i fis Medi 2021 ar ddefnydd ac agweddau poblogaeth y Deyrnas Unedig tuag at newyddion a gwybodaeth am COVID-19. Canfu ymatebion i arolygon rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2012 fod pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (31%), gan gynnwys 31% o ymatebwyr Asiaidd a 32% o ymatebwyr Du, yn fwy tebygol nag ymatebwyr Gwyn (25%) o ddweud eu bod wedi dod ar draws newyddion neu wybodaeth am COVID-19 a allai fod yn ffug neu'n gamarweiniol. Lle'r oedd ymatebwyr wedi gweld honiadau y gellid eu hystyried yn ffug neu'n gamarweiniol, roedd pobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (43%) bron ddwywaith yn fwy tebygol nag ymatebwyr Gwyn (23%) o gytuno bod gweld yr honiadau hyn yn gwneud iddynt feddwl ddwywaith am y mater.¹⁸

Mae astudiaeth sy'n tynnu sylw at yr angen am ymchwil drawsrladol ar ledaeniad camwybodaeth a thwyllwybodaeth mewn cymunedau Asiaidd ar wasgar yn tynnu sylw at sut mae mewnfwydwr cenhedlaeth gyntaf yn yr Unol Daleithiau, a allai fod â hyfedredd cyfyngedig yn Saesneg, yn troi at y cyfryngau ethnig, gan gynnwys y cyfryngau print, darlledu a chymdeithasol, fel ffynonellau gwybodaeth sylfaenol. Mae'r astudiaeth yn awgrymu y gallai'r sianeli hyn fod yn lleoliad allweddol ar gyfer dod i gysylltiad â chamwybodaeth a gwybodaeth gamarweiniol.¹⁹

Mae trosolwg o ymchwil seicolegol i gred mewn damcaniaethau cynllwynio yn awgrymu y gall profiadau o alltudiaeth achosi i bobl gredu mewn damcaniaethau cynllwynio, oclwtiaeth ac ofergoelion, fel rhan o'u hymdrechion i wneud synnwyr o'u profiadau. Mae aelodau o grwpiau sydd â statws cymdeithasol gwrthrychol isel oherwydd eu hethnigrwydd, eu hincwm neu ffactorau cysylltiedig eraill, yn fwy tebygol o gymeradwyo damcaniaethau cynllwyn.²⁰

Canfu arolwg o 4,343 o breswylwyr y Deyrnas Unedig fod cysylltiad cadarnhaol rhwng statws lleiafrifoedd ethnig ac amheuan cynllwyn a defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gael gwybodaeth am COVID-19.²¹

Lefelau incwm

Mae trosolwg o ymchwil seicolegol i gred mewn damcaniaethau cynllwynio yn awgrymu y gall profiadau o alltudiaeth achosi i bobl gredu mewn damcaniaethau cynllwynio, oclwtiaeth ac ofergoelion, fel rhan o'u hymdrechion i wneud synnwyr o'u profiadau. Mae aelodau o grwpiau sydd â statws cymdeithasol gwrthrychol isel oherwydd eu hethnigrwydd, eu hincwm neu ffactorau cysylltiedig eraill, yn fwy tebygol o gymeradwyo damcaniaethau cynllwyn.²²

¹⁷ Allington, Daniel; McAndrew, Siobhan; Moxham-Hall, Vivienne; a Duffy, Bobby (2021): "[Coronavirus conspiracy suspicions, general vaccine attitudes, trust and coronavirus information source as predictors of vaccine hesitancy among UK residents during the Covid-19 pandemic](#)", *Psychological Medicine*, 53, tt. 236-247;

¹⁸ Ofcom, 2021. [Newyddion a gwybodaeth am Covid-19: defnydd ac agweddau](#)

¹⁹ Ngyuen, Sarah; Kuo, Rachel; Reddi, Madhavi; Li, Lan; a Rachel E. Moran; 2022, [Studying mis- and disinformation in Asian diasporic communities: The need for critical transnational research beyond Anglocentrism](#), *Harvard Kennedy School Misinformation Review*,

²⁰ Douglas, Karen M.; Sutton, Robbie M., a Cichoka, Aleksandra, 2017, [The Psychology of Conspiracy Theories](#), *Current Directions in Psychological Science*, 26:6, tt. 538-542,

²¹ Allington, Daniel; McAndrew, Siobhan; Moxham-Hall, Vivienne; a Duffy, Bobby (2021): "[Coronavirus conspiracy suspicions, general vaccine attitudes, trust and coronavirus information source as predictors of vaccine hesitancy among UK residents during the Covid-19 pandemic](#)", *Psychological Medicine*, 53, tt. 236-247;

²² Douglas, Karen M.; Sutton, Robbie M., a Cichoka, Aleksandra, 2017, [The Psychology of Conspiracy Theories](#), *Current Directions in Psychological Science*, 26:6, tt. 538-542,

Canfu arolwg Truth Quest OECD nad oedd gallu canfyddedig cyfranogwyr i adnabod cynnwys ffug a charmarweiniol ar-lein yn gysylltiedig â'u gallu mesuredig i wneud hynny. Canfu'r arolwg fod hyder o ran adnabod cynnwys ffug a charmarweiniol ar-lein yn tueddu i gynyddu yn unol â lefel incwm. Canfu'r arolwg hefyd fod ymatebwyr yn y braced incwm isaf yn y rhan fwyaf o wledydd yn perfformio waethaf yn gyson o ran canfod cynnwys ffug a charmarweiniol, tra bod ymatebwyr yn y braced incwm uchaf yn perfformio orau.²³ Canfu arolwg o 4,343 o breswylwyr y Deyrnas Unedig fod ffactorau sy'n gysylltiedig ag oedi ynghylch brechu yn cynnwys lefelau incwm isel.²⁴

Ymddiriedaeth yn y cyfryngau

Canfu Arolwg Truth Quest OECD mai ymatebwyr o'r Deyrnas Unedig oedd â'r lefel isaf o ymddiriedaeth mewn newyddion o gyfryngau cymdeithasol ymhlith y gwledydd a arolygwyd, gydag oddeutu chwarter y bobl yn ymddiried rhywfaint neu lawer mewn newyddion cyfryngau cymdeithasol.²⁵

Awgrymodd cyfranogwyr mewn astudiaeth ansoddol fach i brofiadau'r rhai sydd â chredoau lleiafrifol ym maes diogelu iechyd, ymosodiad Rwsia ar Wcráin, a newid yn yr hinsawdd nad oedd ffynonellau cyfryngau traddodiadol, etifeddol yn adrodd ar amrywiaeth eang o ddigwyddiadau'r byd.²⁶ Mae rhywfaint o awgrym y gallai llai o ymddiriedaeth yn y cyfryngau fod yn gysylltiedig â rhagduddiad i gamwybodaeth a thwyllwbyodaeth.

Ymddiriedaeth yn y llywodraeth

Rhoddodd astudiaeth yn 2021, a oedd yn edrych ar dueddiad i fod yn agored i gamwybodaeth iechyd yng nghyd-destun pandemig COVID-19, drosolwg o'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â thueddiad i fod yn agored i gamwybodaeth a thwyllwbyodaeth a pherthynas hynny ag amrywiol ffactorau demograffig. Canfu'r astudiaeth fod sawl darn o ymchwil yn cysylltu diffyg ymddiriedaeth mewn llywodraeth â mwy o gredoau mewn cynllwyniau. Nododd yr astudiaeth hefyd fod rhai astudiaethau eraill yn awgrymu bod mwy o ymddiriedaeth yn y llywodraeth yn cydreded â chydymffurfio'n well â chanllawiau yn gysylltiedig â COVID-19.²⁷

Llythrennedd

Rhoddodd astudiaeth yn 2021 a oedd yn archwilio rhagduddiad i gamwybodaeth iechyd yng nghyd-destun pandemig COVID-19 drosolwg o'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â rhagduddiad i gamwybodaeth a thwyllwbyodaeth a'i pherthynas â gwahanol fathau o lythrennedd.

Canfu'r astudiaeth fod lefelau uwch o lythrennedd iechyd yn gysylltiedig â bod yn llai agored i gamwybodaeth sy'n gysylltiedig ag iechyd, er bod y sylfaen dystiolaeth ar hyn yn gymysg, gyda rhai astudiaethau'n canfod bod pobl yn debygol o ddefnyddio ffynonellau heb eu hachredu i ateb cwestiynau sy'n seiliedig ar iechyd.²⁸

²³ OECD, 2024, [The OECD Truth Quest Survey: Methodology and Findings](#).

²⁴ Allington, Daniel; McAndrew, Siobhan; Moxham-Hall, Vivienne; a Duffy, Bobby (2021): "[Coronavirus conspiracy suspicions, general vaccine attitudes, trust and coronavirus information source as predictors of vaccine hesitancy among UK residents during the Covid-19 pandemic](#)", *Psychological Medicine*, 53, tt. 236-247;

²⁵ OECD, 2024, [The OECD Truth Quest Survey: Methodology and Findings](#).

²⁶ Ofcom, 2023, [Deall profiadau o gredoau lleiafrifol ar lwyfannau cyfathrebu ar-lein](#),

²⁷ Vidgen, Bertie; Taylor, Harry; Pantazi, Myrto; Anastasiou, Zoe; Inkster, Becky; a Margetts, Helen; 2021, [Understanding vulnerability to online misinformation](#), *The Alan Turing Institute*,

²⁸ Vidgen, Bertie; Taylor, Harry; Pantazi, Myrto; Anastasiou, Zoe; Inkster, Becky; a Margetts, Helen; 2021, [Understanding vulnerability to online misinformation](#), *The Alan Turing Institute*,

O ran llythrennedd rhifiadol, awgrymodd yr astudiaeth fod rhai astudiaethau wedi canfod bod ymddiriedaeth mewn gwyddonwyr a sgiliau rhifedd uwch yn gysylltiedig â rhagduddiad is i gamwybodaeth sy'n gysylltiedig â COVID-19.²⁹

Awgrymodd yr astudiaeth fod y dystiolaeth ar y berthynas rhwng gwahanol fathau o lythrennedd (llythrennedd digidol, cyfryngau a gwybodaeth) yn tueddu i awgrymu bod lefelau uwch o'r llythrenneddau hyn yn gysylltiedig â lefelau is o ragduddiad i gamwybodaeth. Fodd bynnag, mae rhywfaint o dystiolaeth wedi awgrymu nad yw rhai ymyriadau llythrennedd digidol neu'r cyfryngau yn gwneud llawer i leihau pa mor agored yw pobl i niwed.³⁰

Ideoleg wleidyddol

Rhoddodd astudiaeth yn 2021, a oedd yn edrych ar dueddiad i fod yn agored i gamwybodaeth iechyd yng nghyd-destun pandemig COVID-19, drosolwg o'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â thueddiad i fod yn agored i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth a pherthynas hynny ag amrywiol ffactorau demograffig. Canfu'r astudiaeth fod sawl astudiaeth wedi canfod bod damcaniaethau cynllwyn yn fwy tebygol o gael eu credu gan y rhai sydd â safbwyntiau gwleidyddol eithafol. Ar ben hynny, mae nifer o astudiaethau'n dangos bod credoau "adain dde geidwadol" yn gysylltiedig â chamwybodaeth. Fodd bynnag, mae angen ymchwilio ymhellach i "wybodaeth ffug asgell chwith", gan fod llawer o waith ysgolheigaidd wedi canolbwyntio ar gamwybodaeth asgell dde, geidwadol.³¹

Nodweddion personoliaeth

Rhoddodd astudiaeth yn 2021, a oedd yn edrych ar dueddiad i fod yn agored i gamwybodaeth iechyd yng nghyd-destun pandemig COVID-19, drosolwg o'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â thueddiad i fod yn agored i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth a pherthynas hynny ag amrywiol ffactorau demograffig. Mae'r dystiolaeth ar y cysylltiad rhwng tuedd i gredu camwybodaeth a nodweddion personoliaeth yn gymysg. Mae rhai astudiaethau'n awgrymu bod y rhai sy'n rhoi sgôr is i 'hynawsedd' yn fwy tebygol o ryngweithio â chamwybodaeth ar-lein.³²

Ffactorau cynnwys

Gall ffactorau sy'n ymwneud â chynnwys ar wasanaethau ar-lein, fel dull cyflwyno, cyfrwng, arddull ac eraill, hefyd effeithio ar ragduddiad pobl i fod yn agored i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth.

Nododd astudiaeth yn 2021 a oedd yn edrych ar dueddiad i gamwybodaeth iechyd, yn benodol yng nghyd-destun pandemig COVID-19, y nodweddion canlynol o gynnwys a allai effeithio ar dueddiad i gamwybodaeth:

- **Sut y cyflwynir y cynnwys:** Mae'r astudiaeth yn awgrymu y gall cynnwys ar-lein fod yn brin o'r hewristeg (llwybrau byr meddyliol rydym yn eu defnyddio i ddeall y byd) sydd gan hen gyfryngau a mathau eraill o gynnwys all-lein traddodiadol. Mae rhai astudiaethau wedi dangos bod ychwanegu lluniau at gynnwys a chyflwyno'r cynnwys mewn ffont hawdd ei ddarllen yn cynyddu dibynadwyedd canfyddedig y cynnwys.

²⁹ Vidgen, Bertie; Taylor, Harry; Pantazi, Myrto; Anastasiou, Zoe; Inkster, Becky; a Margetts, Helen; 2021, [Understanding vulnerability to online misinformation](#), *The Alan Turing Institute*,

³⁰ Vidgen, Bertie; Taylor, Harry; Pantazi, Myrto; Anastasiou, Zoe; Inkster, Becky; a Margetts, Helen; 2021, [Understanding vulnerability to online misinformation](#), *The Alan Turing Institute*,

³¹ Vidgen, Bertie; Taylor, Harry; Pantazi, Myrto; Anastasiou, Zoe; Inkster, Becky; a Margetts, Helen; 2021, **Error! Hyperlink reference not valid.**, *The Alan Turing Institute*,

³² Vidgen, Bertie; Taylor, Harry; Pantazi, Myrto; Anastasiou, Zoe; Inkster, Becky; a Margetts, Helen; 2021, **Error! Hyperlink reference not valid.**, *The Alan Turing Institute*,

- **Arddull a pha mor hawdd yw ei ddeall:** Mae'r astudiaeth yn awgrymu y gall pa mor hawdd y gall unigolyn brosesu cynnwys effeithio ar hygyrdded y cynnwys hwnnw, gyda rhai astudiaethau'n awgrymu y gallai gwybodaeth hawdd ei deall fod yn fwy credadwy. Yn yr un modd, mae rhai astudiaethau'n dadlau bod cynnwys camarweiniol, yn hytrach na chynnwys sydd wedi ei ffugio'n gyfan gwbl, yn fwy tebygol o gael ei dderbyn.
- **Ffynhonnell y cynnwys:** Mae'r astudiaeth yn awgrymu y gall y sawl sy'n creu darn o gynnwys effeithio ar y canfyddiad o ba mor ddibynadwy ydyw, gyda rhai astudiaethau'n canfod bod negeseuon a rennir o ffynonellau yr ystyrir eu bod yn ddibynadwy yn fwy tebygol o gael eu rhannu gan eraill.
- **Rhybuddion:** Mae'r astudiaeth yn awgrymu bod gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol yn rhoi mwy a mwy o rybuddion am gynnwys ffug a camarweiniol, gyda nifer o astudiaethau'n awgrymu y gall hyn fod yn effeithiol o ran mynd i'r afael ag anwireddau niweidiol, er bod eraill yn awgrymu y gall y rhybuddion hyn fod yn aneffeithiol. Un o effeithiau andwyol nodedig y rhybuddion hyn yw'r effaith ar wirionedd ymhlyg, lle mae penawdau ffug nad ydynt yn dod gyda rhybuddion yn cael eu hystyried yn ddilys ymhlyg yn y darn, ac felly'n gywir – er nad ydynt o bosibl wedi cael eu hadolygu.
- **Gormod o wybodaeth:** Mae'r astudiaeth yn tynnu sylw at hyn fel ffactor arall a allai wneud pobl yn fwy agored i gamwybodaeth a thwyllwybodaeth, gan ei ddiffinio fel lle mae pobl yn ei chael yn anodd deall a gwneud penderfyniadau am faterion pan fyddant yn wynebu gormod o wybodaeth.

Mae rhywfaint o ymchwil wedi canfod bod ffynhonnell y cynnwys a'r persbectif mae'n cael ei gyflwyno ohono yn gallu ei wneud yn fwy perswadiol i rai cynulleidfaoedd. Canfu ymchwil Ipsos ac Ofcom i brofiadau'r rhai a oedd yn ystyried eu hunain yn ddeiliaid credoau lleiafrifol fod argaeledd tystiolaeth llygad-dyst (neu gynnwys sy'n ymddangos fel tystiolaeth llygad-dyst) a deunydd fideo ar lwyfannau cyfathrebu ar-lein yn rhoi pŵer penodol i rai cyfranogwyr. Os nad oedd y cyfryngau traddodiadol wedi rhoi sylw i'r deunydd neu'r dystiolaeth hon, roedd y cyfranogwyr hyn yn cwestiynu'r broses mae cyfryngau traddodiadol yn ei defnyddio i benderfynu a ddylid adrodd ar bwnc, yn hytrach na chywirdeb y dystiolaeth.³³

Yn ogystal, canfu astudiaeth o gamwybodaeth COVID-19 gan Sefydliad Reuters ar gyfer Astudio Newyddiaduraeth fod 59% o'r gamwybodaeth hon yn cynnwys mathau o ad-drefnu (gwybodaeth bresennol ac sy'n aml yn wir naill ai wedi ei ffugio, ei gwyrddio, ei chyd-destunoli neu ei hailweithio, gyda 38% ohoni wedi ei ffugio'n llwyr). Nododd yr astudiaeth hefyd tri is-fath o gamwybodaeth:

1. Cynnwys camarweiniol (29%) – rhywfaint o wybodaeth wir ond manylion wedi eu hailffurfio, eu dethol a'u rhoi mewn cyd-destun gwahanol a oedd yn eu gwneud yn ffug neu'n gamarweiniol.
2. Labelu neu ddisgrifio delweddau neu fideos fel rhywbeth gwahanol i'r hyn ydynt (24%) – y cyfeirir ato weithiau yn nodiadau'r astudiaeth fel 'gwybodaeth ffug'.
3. Nifer fach o ddelweddau a fideos wedi eu trin sy'n defnyddio technegau technoleg isel nad ydynt yn soffistigedig. Cyfeirir atynt fel 'ffugiadau rhad' (cheap fakes) yn hytrach na ffugiadau dwfn (deepfakes).³⁴

³³ Ofcom, 2023, [Deall profiadau o gredoau lleiafrifol ar lwyfannau cyfathrebu ar-lein](#).

³⁴ Simon, Felix; Howard, Philip N.; a Nielsen, Rasmus Klein (2020): "[Types, sources and claims of Covid-19 misinformation](#)", Reuters Institute for the Study of Journalism, cyhoeddwyd 7 Ebrill 2020

Gellir categoraiddio twyllwybodaeth hefyd yn ôl y ffyrdd y caiff cynnwys ei gyflwyno neu ei drin fel rhan o'i greu.

Mae Hamleers et al, 2020, yn tynnu sylw at bedair techneg allweddol a ddefnyddir i greu twyllwybodaeth amlfodd (twyllwybodaeth sy'n cyfuno technegau gweledol a gweadol i greu cynnwys ffug neu gamarweiniol):

1. **Tynnu o'u cyd-destun:** paru delweddau neu fideos go iawn â thestun ffug, wedi ei drin neu gamarweiniol;
2. **Ail-fframio:** Tocio neu dynnu fideos o'u cyd-destun i wneud rhai agweddau ar faterion yn fwy amlwg neu flaenllaw wrth fynd ar drywydd agenda benodol;
3. **Trin deunydd gweledol:** Trin delweddau neu fideos i gyflwyno realiti gwahanol i'r hyn sydd ynddynt yn eu ffurf heb ei golygu;
4. **Trin amlfodd:** Ffugio cynnwys drwy baru delweddau neu fideos wedi eu trin â thestun ffug, camarweiniol neu wedi ei drin.³⁵

Ni chanfu Arolwg Truth Quest OECD wahaniaethau yng ngallu pobl i adnabod cynnwys gwir neu anwir a camarweiniol yn gywir ar draws y tair prif thema a astudiwyd ganddo (iechyd, materion rhyngwladol a'r amgylchedd).³⁶

Effaith cynnwys a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial

Mae datblygiadau diweddar mewn technolegau deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol wedi arwain at gydnabod y risg a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r technolegau hyn. Roedd Adroddiad Risg Fyd-eang 2024 Fforwm Economaidd y Byd yn tynnu sylw at sut gellid defnyddio deallusrwydd artiffisial i chwyddo gwybodaeth wedi ei thrin a'i hystumio y gellir ei defnyddio i ansefydlogi cymdeithasau.³⁷

Mae rhai astudiaethau diweddar wedi ymchwilio i ba mor dda mae unigolion yn dirnad cynnwys sy'n cael ei greu gan fodel deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol a chynnwys sy'n cael ei greu gan bobl, yn ogystal ag ymchwilio i weld a yw cynnwys camarweiniol sy'n cael ei gynhyrchu gan ddeallusrwydd artiffisial yn fwy perswadiol, neu'n anoddach ei ganfod fel cynnwys ffug, na chynnwys camarweiniol sy'n cael ei gynhyrchu gan bobl.

Canfu arolwg Truth Quest OCED fod ymatebwyr, ar gyfartaledd, yn teimlo bod cynnwys a gynhyrchir gan ddeallusrwydd artiffisial yn haws ei adnabod na chynnwys a gynhyrchir gan bobl. Ar draws yr holl wledydd a arolygwyd, roedd twyllwybodaeth a gynhyrchwyd gan ddeallusrwydd artiffisial 10 pwynt canran yn haws ei nodi'n gywir fel deunydd ffug o'i gymharu â thwyllwybodaeth a gynhyrchwyd gan bobl.³⁸

Mae'r canfyddiad hwn yn gwrthdaro ag astudiaeth wahanol, a ganfu fod modelau AI yn well am gynhyrchu gwybodaeth gywir sy'n haws ei deall, ac am gynhyrchu twyllwybodaeth fwy cymhellol, na bodau dynol. Canfu'r un astudiaeth nad oedd cyfranogwyr yn gallu gwahaniaethu rhwng negeseuon

³⁵ Hameleers, Michael; Powell, Thomas E.; Van Der Meer, Toni G.L.A.; a Bos, Lieke, 2020, [A Picture Paints a Thousand Lies? The Effects and Mechanisms of Multimodal Disinformation and Rebuttals Disseminated on Social Media](#), *Political Communication*, 37:2, tt.281-301,

³⁶ OECD, 2024, [The OECD Truth Quest Survey: Methodology and Findings](#),

³⁷ Fforwm Economaidd y Byd (2024): [Global Risks Report 2024](#), cyhoeddwyd 10 Ionawr 2024, cyrchwyd 16 Mai 2024

³⁸ OECD, 2024, [The OECD Truth Quest Survey: Methodology and Findings](#),

ar y cyfryngau cymdeithasol a gynhyrchwyd gan fodel deallusrwydd artiffisial a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol a gynhyrchwyd gan bobl.³⁹

Canfu arolwg gan Adobe o dros 6,000 o unigolion ar draws sawl gwlad, gan gynnwys dros 2,000 o ymatebwyr yn y Deyrnas Unedig, mai dim ond 57% o unigolion yn y Deyrnas Unedig sy'n teimlo'n hyderus eu bod yn gallu adnabod camwybodaeth.⁴⁰

³⁹ Spitale, Giovanni; Biller-Andorno, Nikola; a Germani, Federico (2023): AI model GPT-3 (dis)informs us better than humans, *Science Advances*, 9:26

⁴⁰ Adobe, 2024. [Adobe Future of Trust Study Narrative \(UK\)](#), cyhoeddwyd 18 Ebrill 2024.

Cyffredinrwydd ac effeithiau

Heriau wrth amcangyfrif cyffredinrwydd

Yng nghyd-destun cyfathrebu ar-lein, mae cyffredinrwydd yn un ffordd o gysyniadu amlygiad cyfrannol cynulleidfa i gynnwys neu ymddygiad ar-lein. O ran camwybodaeth a thwyllwybodaeth, gallwn ddeall pa mor gyffredin yw hyn fel cyfran y defnyddwyr ar-lein sy'n dod i gysylltiad â darn penodol o gynnwys camwybodaeth a thwyllwybodaeth, neu naratif penodol o gamwybodaeth neu dwyllwybodaeth, ar adeg benodol.

Gall sefydlu pa mor gyffredin yw camwybodaeth a thwyllwybodaeth fod yn heriol, yn enwedig mewn cyd-destun y tu allan i'r Unol Daleithiau. Mae camwybodaeth a thwyllwybodaeth yn benodol i gyd-destun ac amser, a gall asesu cyffredinrwydd camwybodaeth a thwyllwybodaeth gael ei gymhlethu ymhellach wrth i wasanaethau gael gwared ar gynnwys treisgar, y mae gan lawer ohonynt bolisiau sy'n gwahardd rhannu camwybodaeth a thwyllwybodaeth.

Ar ben hynny, mae anghytuno ynghylch beth yw camwybodaeth a thwyllwybodaeth, a phwy sy'n cael penderfynu beth sydd (a beth nad yw) yn gamwybodaeth a thwyllwybodaeth. Mae rhai pobl yn teimlo bod y cyfryngau prif ffrwd hefyd yn lleoliad allweddol ar gyfer lledaenu camwybodaeth a thwyllwybodaeth, fel y dywedodd nifer o gyfranogwyr yn ymchwil ansoddol Ipsos ac Ofcom gyda'r rhai a oedd yn arddel credoau lleiafrifol.⁴¹

Fodd bynnag, mae rhai amcangyfrifon o nifer yr achosion o gamwybodaeth a thwyllwybodaeth am faterion penodol yn y Deyrnas Unedig. Amlinellir y rhain yn yr adran a ganlyn.

Amcangyfrifon o gyffredinrwydd

Canfu Traciwr Profiadau Ar-lein Ofcom fod gan 68% o'r ymatebwyr lefel uchel o bryder am gamwybodaeth, gyda'r un gyfran (68%) yn mynegi pryder am ddelweddau a fideos ffug neu dwyllodrus.⁴²

Canfu astudiaeth o 2,244 o drigolion y Deyrnas Unedig rhwng 16 a 75 oed fod 1 o bob 3 o bobl a bron i hanner (46%) o'r holl bobl ifanc 16-34 oed wedi dweud eu bod wedi gweld neu glywed negeseuon yn annog y cyhoedd i beidio â chael brechlyn COVID-19.⁴³

Ym mis Medi 2021, canfu arolwg gan Ofcom ar agweddau a defnydd unigolion yn y Deyrnas Unedig o newyddion a gwybodaeth am bandemig COVID-19 fod 24% o bobl wedi dweud eu bod wedi dod ar draws honiadau am COVID-19 a allai fod wedi bod yn ffug neu'n gamarweiniol. Dyma'r honiadau mwyaf cyffredin a welwyd gan ymatebwyr, o'r rhestr a awgrymwyd:

- Nid yw masgiau/gorchuddion wyneb yn cynnig unrhyw amddiffyniad neu maent yn niweidiol (gwelwyd gan 22%)
- Mae'r fflw ar ei ben ei hun yn lladd mwy o bobl na COVID-19 (19%)

⁴¹ Strong, Colin; Owen, Katy; a Mansfield, Jill. 2023. [Understanding experiences of minority beliefs on online communication platforms](#), Ipsos, cyhoeddwyd ym mis Medi 2023

⁴² Ofcom, 2024. [Traciwr Profiadau Ar-lein Ton 5](#), cyrchwyd 26 Gorffennaf 2024

⁴³ Duffy, Bobby; Beaver, K.; a Meyer, C. (2020): "[Coronavirus: vaccine misinformation and the role of social media](#)", The Policy Institute, King's College Llundain

- Mae nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn llawer is na'r nifer sy'n cael ei gofnodi (17%)
- Nid yw COVID-19 yn bodoli ac fe'i peiriannwyd yn enetig (15%)

Yn ogystal, canfu'r arolwg bod dros hanner (58%) y rhai sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol eu bod wedi gweld negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol gyda rhybuddion neu hysbysiadau y gallai'r wybodaeth fod yn annibynadwy neu'n anwir.⁴⁴

Canfu astudiaeth gan Sefydliad Reuters o gamwybodaeth sy'n gysylltiedig â COVID-19 fod camwybodaeth gan wleidyddion, enwogion a ffigurau cyhoeddus amlwg yn cyfrif am 20% o'r honiadau yn eu sampl ond yn cyfrif am 69% o gyfanswm yr ymgysylltiad ar y cyfryngau cymdeithasol â chamwybodaeth sy'n gysylltiedig â COVID-19.⁴⁵ Canfu'r astudiaeth hefyd fod 80% o honiadau am gamwybodaeth yn dod gan ddefnyddwyr cyffredin y cyfryngau cymdeithasol a bod y rhain wedi arwain at lai o ymgysylltu. Fodd bynnag, nodwyd yn yr adroddiad rai achosion o gamwybodaeth o'r gwaelod i fyny yn cynhyrchu cyrhaeddiad mawr ond ni chafodd y gwir ledaeniad, sy'n cynnwys drwy grwpiau preifat a rhaglenni negeseuon wedi eu hamgryptio, ei gofnodi.⁴⁶

Canfu arolwg o dros 6,000 o unigolion ar draws nifer o wledydd gan Adobe, gan gynnwys dros 2,000 o ymatebwyr yn y Deyrnas Unedig, fod 37% o ymatebwyr y Deyrnas Unedig wedi dweud eu bod wedi gweld rhywun maent yn ei adnabod yn rhannu'r hyn maent o'r farn ei fod yn gamwybodaeth yn ystod y chwe mis diwethaf. Ar ben hynny, canfu'r arolwg fod 13% o ymatebwyr y Deyrnas Unedig wedi dweud eu bod wedi rhannu cynnwys yn ystod y chwe mis diwethaf a oedd yn gamwybodaeth erbyn gweld, gyda 62% o'r ymatebwyr hyn yn ceisio cywiro'r gamwybodaeth ar ôl iddynt ddarganfod ei bod yn gamarweiniol.⁴⁷

Cyffredinrwydd ar wahanol wasanaethau

Canfu astudiaeth o gamwybodaeth am frechlynnau a rôl y cyfryngau cymdeithasol, a gynhaliwyd gan King's College Llundain cyn i awdurdodau meddygol y Deyrnas Unedig gymeradwyo brechiadau yn erbyn COVID-19, fod 1 o bob 3 o bobl yn y Deyrnas Unedig yn dweud eu bod wedi gweld neu glywed negeseuon yn annog defnyddwyr cyfryngau cymdeithasol i beidio â chael brechlyn COVID-19, pe bai un ar gael. O'r rhain, mae 58% yn dweud eu bod wedi eu gweld ar Facebook – y brif ffynhonnell a nodwyd o bell ffordd, sy'n golygu bod 1 o bob 5 o bobl (20%) yn y Deyrnas Unedig yn dweud eu bod wedi gweld negeseuon o'r fath ar Facebook.

Bydd y gyfran uchel hon yn adlewyrchu'n rhannol y ffaith bod gan Facebook sylfaen defnyddwyr fwy na chwmnïau cyfryngau cymdeithasol eraill. Mae llawer llai o bobl yn dweud eu bod yn gweld negeseuon yn gwrthwynebu brechlyn COVID-19 ar lwyfannau eraill. Er enghraifft, mae 19% o'r rhai sy'n dweud eu bod wedi gweld y math hwn o gynnwys yn dweud bod Twitter⁴⁸ yn ffynhonnell, ac mae 17% yn dweud Instagram. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 6% o boblogaeth y Deyrnas Unedig, ac

⁴⁴ Ofcom, 2021. [Newyddion a gwybodaeth am Covid-19: defnydd ac agweddau](#)

⁴⁵ Simon, Felix; Howard, Philip N.; a Nielsen, Rasmus Klein (2020): "[Types, sources and claims of Covid-19 misinformation](#)", Reuters Institute for the Study of Journalism, cyhoeddwyd 7 Ebrill 2020

⁴⁶ Simon, Felix; Howard, Philip N.; a Nielsen, Rasmus Klein (2020): "[Types, sources and claims of Covid-19 misinformation](#)", Reuters Institute for the Study of Journalism, cyhoeddwyd 7 Ebrill 2020

⁴⁷ Adobe, 2024. [Adobe Future of Trust Study Narrative \(UK\)](#), cyhoeddwyd 18 Ebrill 2024.

⁴⁸ Cynhaliwyd yr astudiaeth hon cyn i'r gwasanaeth newid ei enw i X.

mae cyfran debyg o'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig yn dweud bod ffrind neu aelod o'r teulu wedi bod yn ffynhonnell negeseuon o'r fath.⁴⁹

Effeithiau camwybodaeth a thwyllwysbodaeth

Effeithiau ar iechyd

Mae sawl astudiaeth wedi awgrymu cysylltiad rhwng petruster ynglŷn â brechlynnau⁵⁰ ac arddel credoau cynllwyn sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Canfu astudiaeth yn seiliedig ar arolwg o 4,343 o oedolion yn y Deyrnas Unedig, a haenwyd er mwyn cynrychioli poblogaeth y Deyrnas Unedig o ran oedran, rhywedd, rhanbarth a statws gweithio rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2020, mai'r rhagfynegyddion mwyaf pwerus o betruster ynghylch brechu oedd amheuan am gynllwynion ac agweddau cyffredinol tuag at frechu.⁵¹

Mewn astudiaeth arall sy'n ymchwilio i ffactorau sy'n effeithio ar y nifer sy'n cael eu brechu neu betruster cyn brechu, o blith y ffactorau a oedd yn gysylltiedig â mwy o debygolrwydd o barodrwydd i frechu, roedd y cysylltiadau deunewidiol cryfaf i'w gweld wrth edrych ar oedran ac ymddiriedaeth mewn sefydliadau iechyd fel y GIG a Sefydliad Iechyd y Byd. Roedd yr ymatebwyr hynaf dros 20 gwaith yn fwy tebygol o fynegi parodrwydd i gael y brechlyn o'i gymharu â'r ieuengaf.⁵² O'r ffactorau a oedd yn lleihau'r tebygolrwydd o gael y brechlyn, credoau cynllwyn oedd yn cael yr effaith fwyaf, wedi eu dilyn gan ddiffyg ymddiriedaeth mewn brechlynnau, cred mewn camwybodaeth am COVID-19 ac amau dilysrwydd y cyfyngiadau symud. Roedd defnyddwyr Instagram, YouTube, Snapchat a TikTok i gyd yn llai tebygol o fynegi parodrwydd i gael eu brechu. Dim ond defnyddwyr YouTube oedd yn llawer llai parod i gael eu brechu, gyda dwy ran o dair o debygolrwydd o barodrwydd i gael eu brechu o'i gymharu â'r rhai nad oeddent yn defnyddio YouTube.⁵³

Canfu astudiaeth arall fod 'lleiafrif nodedig o'r cyhoedd hefyd yn credu damcaniaethau cynllwynio am frechlyn COVID-19 – gyda chred arbennig o uchel ymysg pobl iau a'r rhai sy'n cael llawer o wybodaeth am y pandemig o lwyfannau cyfryngau cymdeithasol'.⁵⁴

Gall camwybodaeth guddio ei hun fel strategaethau credadwy i reoli heintiau a'u hatal ac mae ganddi oblygiadau difrifol os bydd rhywun yn ei blaenoriaethu yn hytrach na chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Roedd ymchwil yn awgrymu bod myth poblogaidd, y gallai yfed alcohol dwys iawn ddiheintio'r corff a lladd y feirws, yn cylchredeg ledled y byd. Yn dilyn y gamwybodaeth hon, bu

⁴⁹ Duffy, Bobby; Beaver, K.; a Meyer, C. (2020): "[Coronavirus: vaccine misinformation and the role of social media](#)", The Policy Institute, King's College Llundain

⁵⁰ Diffinnir petruster cyn brechu fel: yr oedi cyn derbyn neu wrthod brechiad er bod gwasanaethau brechu ar gael. Ffynhonnell: Allington, Daniel; McAndrew, Siobhan; Moxham-Hall, Vivienne; a Duffy, Bobby (2021): "[Coronavirus conspiracy suspicions, general vaccine attitudes, trust and coronavirus information source as predictors of vaccine hesitancy among UK residents during the Covid-19 pandemic](#)", *Psychological Medicine*, 53, tt. 236-247;

⁵¹ Allington, Daniel; McAndrew, Siobhan; Moxham-Hall, Vivienne; a Duffy, Bobby (2021): "[Coronavirus conspiracy suspicions, general vaccine attitudes, trust and coronavirus information source as predictors of vaccine hesitancy among UK residents during the Covid-19 pandemic](#)", *Psychological Medicine*, 53, tt. 236-247;

⁵² Jennings, Will; Stoker, Gerry, Bunting, Hannah; Valgarosson, Viktor Orri; Gaskell, Jennifer; Devine, Daniel; McKay, Lawrence; a Mills, Melinda C. (2021): "[Lack of Trust, Conspiracy Beliefs, and Social Media Use Predict COVID-19 Vaccine Hesitancy](#)", *Vaccines*, 9:6, 593

⁵³ Jennings, Will; Stoker, Gerry, Bunting, Hannah; Valgarosson, Viktor Orri; Gaskell, Jennifer; Devine, Daniel; McKay, Lawrence; a Mills, Melinda C. (2021): "[Lack of Trust, Conspiracy Beliefs, and Social Media Use Predict COVID-19 Vaccine Hesitancy](#)", *Vaccines*, 9:6, 593

⁵⁴ King's College Llundain; a Phrifysgol Bryste (2021): "[Coronavirus conspiracies and views of vaccination](#)", cyhoeddwyd 31 Ionawr 2021,

farw tua 800 o bobl, bu'n rhaid i 5,876 gael eu trin mewn ysbyty ac mae 60 wedi colli eu golwg ar ôl yfed methanol fel meddyginiaeth at COVID-19.⁵⁵

Effeithiau cymdeithasol

Mewn astudiaeth ansoddol fach a gynhaliwyd gan Ipsos ac Ofcom i'r rhai sydd â chredoau lleiafrifol a'u profiadau ar lwyfannau ar-lein, dywedodd cyfranogwyr eu bod yn wynebu heriau mewn perthynas â'u priod a'u partneriaid, ochr yn ochr â heriau ehangach o ran eu perthynas â theulu, ffrindiau a chydweithwyr yn y gweithle oherwydd eu credoau. Fodd bynnag, dywedodd rhai cyfranogwyr hefyd fod eu hymgysylltiad â chredoau lleiafrifol wedi arwain at gyfeillgarwch newydd ac ymdeimlad o gymuned ag eraill o'r un anian.

Yn yr un astudiaeth, nododd rhai cyfranogwyr fod eu credoau lleiafrifol yn effeithio ar eu perthynas ag eraill yn y gweithle - er enghraifft, teimlo dan bwysau, cael sgysiau anodd, a theimlo'r angen i sensro eu hunain er mwyn osgoi sgil-effeithiau negyddol. Roedd hyn yn enwedig o wir o ran diogelu iechyd a'r brechlyn COVID-19.

Roedd ambell un o'r rhai a gyfrannodd at yr astudiaeth yn teimlo eu bod ar y cyrion, oherwydd eu credoau, gan fynegi dicter ynghylch eu canfyddiad o gael eu gweld mewn goleuni negyddol yn y gymdeithas ehangach oherwydd eu credoau lleiafrifol. Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr eraill yn teimlo bod ymgysylltu â chredoau lleiafrifoedd yn brofiad gwerth chweil ac yn rhoi ymdeimlad iddynt eu bod wedi eu grymuso.⁵⁶

Canfu arolwg gan Adobe o dros 6,000 o unigolion ar draws nifer o wledydd, gan gynnwys dros 2,000 o ymatebwyr yn y Deyrnas Unedig, fod bron i 1 o bob 3 o bobl (29%) wedi lleihau eu gweithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol ar sail pa mor aml mae camwybodaeth yn cael ei lledaenu ar lwyfannau.⁵⁷

Effeithiau cymdeithasol

Mae ymchwil ddiweddar wedi awgrymu bod damcaniaethau cynllwyn COVID-19 yn arwain at ganlyniadau negyddol i fwriadau pobl i gydymffurfio ag argymhellion y llywodraeth. Gallant hefyd arwain at bobl yn dangos mwy o gefnogaeth i atebion amgen, parodrwydd i gyflawni fandaliaeth neu drais, a gor-stocio nwyddau.⁵⁸

Nododd astudiaeth wahanol o ymatebion i gyhoeddiad cyfnod clo cenedlaethol cyntaf y Deyrnas Unedig ar Twitter fod prynu bwyd ac eitemau i'r cartref mewn panig, difrod troseddol a fandaliaeth i fastiau 5G, a therfysgoedd yn Wcráin dros orfodi dinasyddion o Tsieina i adael yn ystod camau cynnar y pandemig, yn effeithiau camwybodaeth ynghylch COVID-19.⁵⁹

Canfu arolwg o dros 6,000 o unigolion ar draws sawl gwlad gan Adobe, gan gynnwys dros 2,000 o ymatebwyr yn y Deyrnas Unedig, fod 81% o ymatebwyr y Deyrnas Unedig yn cytuno mai camwybodaeth yw un o'r bygythiadau mwyaf sy'n wynebu cymdeithas. Dywedodd 78% o'r

⁵⁵ Islam, Saiful, et al.; 2020, [COVID-19-Related Infodemic and Its Impact on Public Health: A Global Social Media Analysis](#), *The American Journal of Tropical Medicine and Hygiene*, 103:4, tt. 1621-1629

⁵⁶ Ofcom, 2023, [Deall profiadau o gredoau lleiafrifol ar lwyfannau cyfathrebu ar-lein](#),

⁵⁷ Adobe, 2024. [Adobe Future of Trust Study Narrative \(UK\)](#), cyhoeddwyd 18 Ebrill 2024.

⁵⁸ Douglas, Karen M.; 2021, [Covid-19 Conspiracy Theories](#), *Group Processes & Intergroup Relations*, 24:2,

⁵⁹ Green, Mark; et al.; 2021, [Identifying how Covid-19-related misinformation reacts to the announcements of the UK national lockdown: An interrupted time-series study](#), *Big Data & Society*,

ymatebwyr o'r Deyrnas Unedig eu bod yn ofni y byddai camwybodaeth a ffugiadau dwfn yn effeithio ar etholiadau sydd ar ddod ac yn ymyrryd â'r broses ddemocrataidd.⁶⁰

⁶⁰ Adobe, 2024. [Adobe Future of Trust Study Narrative \(UK\)](#), cyhoeddwyd 18 Ebrill 2024.

Camau Iliniaru: Opsiynau, Costau, Effeithlonrwydd

Gwirio ffeithiau

Beth ydyw?

Mae gwirio ffeithiau yn broses sy'n dilysu gwybodaeth. Gwirio ffeithiau yw un o'r atebion sydd wedi cael ei astudio fwyaf ar gyfer lleihau lledaeniad camwybodaeth a thwyllwbydaeth ar-lein ac mewn cyfryngau eraill, fel yn y cyfryngau print a darlledu.

Tystiolaeth effeithlonrwydd

Er bod y rhan fwyaf o astudiaethau'n canfod bod gwirio ffeithiau yn gwella gallu defnyddwyr llwyfannau i wahaniaethu rhwng newyddion go iawn a newyddion ffug⁶¹, mae anghytundeb ynghylch a yw fformat gwirio ffeithiau yn effeithio ar ei fwriad. Mae rhai astudiaethau wedi canfod bod fideos yn fformat llawer mwy effeithiol ar gyfer gwirio ffeithiau⁶², tra nad yw eraill wedi canfod unrhyw wahaniaeth mewn effaith rhwng gwiriadau ffeithiau fideo a thestun.⁶³

Mae astudiaethau hefyd wedi canfod, er bod gwirio ffeithiau yn gwella gallu defnyddwyr i ganfod newyddion ffug, nad ydynt yn lleihau faint o'r newyddion ffug hyn sy'n cael eu rhannu gan ddefnyddwyr.⁶⁴ Mae astudiaethau eraill wedi nodi 'effaith barhaus o ran dylanwad,' lle mae unigolion yn parhau i ddibynnu ar gamwybodaeth hyd yn oed ar ôl iddi gael ei chwalu.⁶⁵⁶⁶

Mae astudiaethau eraill wedi awgrymu defnydd mwy newydd o wirio ffeithiau, fel creu cronfeydd data o gynnwys y gwiriwyd ei ffeithiau i wasanaethau allu gwirio pethau fel rhan o ymdrechion i atal lledaeniad camwybodaeth a thwyllwbydaeth.⁶⁷

⁶¹ Bor, Alexander; Osmundsen, Mathias; Rasmussen, Stig Hebbelstrup Rye; Bechmann, Anja; a Petersen, Michael Bang, 2021, "[Fact-checking videos reduce belief in, but not the sharing of fake news](#)", *PsyArxiv*,

⁶² Courchesne, Laura; Ilhardt, Julia; a Shapiro, Jacob N., 2021, [Review of Social Science Research on the Impact of Countermeasures against Influence Operations](#), *Harvard Kennedy School Misinformation Review*,

⁶³ Hameleers, Michael; Powell, Thomas E.; Van Der Meer, Toni G.L.A; a Bos, Lieke, 2020, [A Picture Paints a Thousand Lies? The Effects and Mechanisms of Multimodal Disinformation and Rebuttals Disseminated on Social Media](#), *Political Communication*, 37:2, tt.281-301,

⁶⁴ Bor, Alexander; Osmundsen, Mathias; Rasmussen, Stig Hebbelstrup Rye; Bechmann, Anja; a Petersen, Michael Bang, 2021, "[Fact-checking videos reduce belief in, but not the sharing of fake news](#)", *PsyArxiv*,

⁶⁵ Ecker, U.K.H; Lewandowsky, S.; a Tang, D.T.W (2010): [Explicit warnings reduce but do not eliminate the continued influence of misinformation](#), *Memory & Cognition*, 38, tt. 1087-1100

⁶⁶ Lewandowsky, S.; Ecker, U. K. H.; Seifert, C. M.; Schwarz, N.; a Cook, J. (2012): [Misinformation and Its Correction: Continued Influence and Successful Debiasing](#), *Psychological Science in the Public Interest*, 13:3, tt. 106-131

⁶⁷ Reis, Julio C. S.; Melo, Philipe; Garimella, Kiran; a Benevenuto, Fabricio, 2020, [Can WhatsApp benefit from debunked fact-checked stories to reduce misinformation?](#), *Harvard Kennedy School Misinformation Review*,

Labelu cynnwys: labeli cyfryngau'r wladwriaeth a rhybuddion ffynhonnell

Beth ydyw?

Mae rhybuddion ffynhonnell yn fath o label cynnwys mae llwyfannau'n ei ddefnyddio ar gyfer cyfrifon neu bostiadau yr amheuir neu y cadarnhawyd eu bod yn dod o endidau a noddir gan wladwriaeth neu endidau sy'n gysylltiedig â gwladwriaeth, neu o leoliadau sy'n adnabyddus am rannu gwybodaeth heb ei dilysu.

Yn gyffredinol, bwriad y math hwn o labelu yw darparu gwybodaeth am annibyniaeth olygyddol (neu ddiffyg annibyniaeth) ffynonellau cyfryngau ar wasanaethau, yn hytrach nag am y model cyllido maent yn gweithredu oddi tano. Mae nifer o wasanaethau wedi cyhoeddi eu meini prawf ar gyfer y gwaith labelu hwn. Er enghraifft, mae TikTok yn labelu cyfrifon sy'n cael eu rhedeg gan endidau y mae eu hallbwn golygyddol neu eu proses gwneud penderfyniadau yn ddarostyngedig i reolaeth neu ddylanwad gan lywodraeth⁶⁸, ac mae Meta yn diffinio cyfryngau a reolir gan y wladwriaeth fel cyfryngau y mae o'r farn y gallant fod o dan reolaeth olygyddol eu llywodraeth yn rhannol neu'n gyfan gwbl.⁶⁹

Mae'r labeli hyn yn wahanol i labeli dilysu, sy'n cael eu defnyddio gan wasanaethau i ddilysu perchennog cyfrif (er enghraifft, cynrychiolydd etholedig, neu adran swyddogol o'r llywodraeth), yn hytrach na rhoi syniad o'r ongl olygyddol maent yn postio cynnwys ohoni.

Tystiolaeth effeithlonrwydd

Mae gwaith ysgolheigaidd wedi canfod bod llwyddiant y labeli ffynhonnell hyn yn gymysg. Mae'r llenyddiaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar y defnydd o labeli gan wasanaethau cyfryngau cymdeithasol poblogaidd ac yn bennaf yn defnyddio samplau o'r Unol Daleithiau America yn yr ymchwil.

Mae astudiaethau wedi canfod bod llwyddiant y rhybuddion hyn yn dibynnu'n fawr ar eu fformat, gyda'u heffeithiolrwydd yn lleihau, fel y byddid yn ei ddisgwyl, os yw'r label yn anodd ei weld neu'n hawdd ei anwybyddu.⁷⁰ Canfu astudiaeth wahanol fod llwyddiant y rhybuddion hyn yn amrywio ar draws cysylltiadau a gwasanaethau gwleidyddol, a chanfuwyd bod rhybuddion ffynhonnell yn fwy effeithiol ar X (Twitter ar y pryd) nag ar Facebook.⁷¹ Ar ben hynny, mae astudiaethau wedi awgrymu bod effeithiau cywiro'r labeli hyn yn dibynnu ar sylwi ar y label a bod yr wybodaeth sydd arnynt yn cael ei hamsugno.⁷²

⁶⁸ TikTok (Erlich, Justin) 2023, [TikTok's state-affiliated media policy](#), cyhoeddwyd 18 Ionawr 2023

⁶⁹ Meta (Gleicher, Nathaniel), 2020: [Labeling State-Controlled Media on Facebook](#), cyhoeddwyd 4 Mehefin 2020

⁷⁰ Nassetta, Jack; a Gross, Kimberly; 2020, [State Media Warnings Can Counteract the Effect of Foreign Misinformation](#), *Harvard Kennedy School Misinformation Review*,

⁷¹ Arnold, Jason Ross; Reckendorf, Alexandra; a Wintersieck, Amanda L.; 2021, [Source Alerts Can Reduce the Harms of Foreign Disinformation](#), *Harvard Kennedy School Misinformation Review*,

⁷² Nassetta, Jack; a Gross, Kimberly; 2020, [State Media Warnings Can Counteract the Effect of Foreign Misinformation](#), *Harvard Kennedy School Misinformation Review*,

Labelu cynnwys: rhybuddion a gwybodaeth am gyhoeddwr

Beth ydyw?

Mae gwasanaethau ar-lein yn ei gwneud yn haws i'w defnyddwyr adnabod awdur neu gyhoeddwr newyddion ar-lein. Ar ben hynny, mae llwyfannau'n darparu gwybodaeth gyd-destunol i ddefnyddwyr er mwyn iddynt allu barnu cywirdeb y cynnwys eu hunain yn well.

Tystiolaeth effeithlonrwydd

Mae'r ymchwil ar y mesurau lliniaru hyn yn gymysg. Canfu un astudiaeth, a oedd yn ymchwilio i weld a oedd yr ymyriad hwn yn helpu defnyddwyr i wahaniaethu rhwng cynnwys cywir ac anghywir, nad oedd gwybodaeth am gyhoeddwr yn cael unrhyw effaith sylweddol ar p'un a oedd cyfranogwyr o'r farn bod y pennawd yn gywir neu wedi mynegi bwriad i'w rannu.⁷³ Mae ymchwil wedi canfod mai un o effeithiau andwyol nodedig y rhybuddion hyn yw'r effaith bod y gwirionedd ymhlyg, lle mae penawdau ffug nad ydynt yn dod gyda rhybuddion yn cael eu hystyried yn ddilys ac felly'n gywir – er nad ydynt o bosibl wedi cael eu hadolygu.⁷⁴ Fodd bynnag, canfu astudiaeth gan Sefydliad Alan Turing fod y rhybuddion hyn yn cael effaith ystadegol arwyddocaol, ond bach iawn, ar gyfranogwyr, gan leihau swm y gwallau 0.003 ar gyfartaledd..⁷⁵

Israddio a diwygio algorithmau ar beiriannau chwilio

Beth ydyw?

Mae peiriannau chwilio yn defnyddio algorithm i benderfynu pa ganlyniadau sydd fwyaf perthnasol ac i roi trefn ar y canlyniadau maent yn eu dangos i ddefnyddwyr yn unol â hynny. Mae *israddio* yn golygu bod peiriant chwilio wedi gwneud y dewis bwriadol i symud parth ymhellach i lawr y rhestr o ganlyniadau a ddangosir ar gyfer ymholiad chwilio penodol. Mae'r arfer hwn wedi cael ei gymhwyso i barthau sy'n cynnal camwybodaeth am ieched, parthau gweithrediadau dylanwad tramor honedig, parthau sy'n cynnal cynnwys CSAM a pharthau sy'n cynnal cynnwys terfysgol.

Tystiolaeth effeithlonrwydd

Yn 2019, canfuwyd bod Bing, wedi dychwelyd o leiaf 125 o ffynonellau twyllwybodaeth a chamwybodaeth, tra dychwelodd Google 13, ar draws yr 50 canlyniad uchaf ar gyfer 12 ymholiad ar wahân (cyfanswm o 600 canlyniad).⁷⁶ Mae'r gwaith ymchwil hwn yn awgrymu bod addasiadau algorithmig yr olaf wedi effeithio ar ba mor gyffredin yw twyllwybodaeth yn ei chanlyniadau.

Costau a risgiau

⁷³ Dias, N., Pennycook, G., & Rand, D. G.; 2020, [Emphasizing publishers does not effectively reduce susceptibility to misinformation on social media](#), *Harvard Kennedy School Misinformation Review*

⁷⁴ Pennycook, Gordon; Bear, Adam; Collins, Evan T, a Rand, David G.; 2020, [The Implied Truth Effect: Attaching Warning to a Subset of Fake News Headlines Increases Perceived Accuracy of Headlines Without Warnings](#), *Management Science*, 66:11,

⁷⁵ Vidgen, Bertie; Taylor, Harry; Pantazi, Myrto; Anastasiou, Zoe; Inkster, Becky; a Margetts, Helen; 2021, [Understanding vulnerability to online misinformation](#), *The Alan Turing Institute*,

⁷⁶ Bush, Daniel; a Zaheer, Alex; 2019, [Bing's Top Search Results Contain an Alarming Amount of Disinformation](#), *Stanford Freeman Spogli Institute for International Affairs*,

Mesurau penodol i etholiadau

Polisiau digwyddiadau sensitif

Tynnu cyfrifon i lawr

Beth ydyw?

Mae hyn yn digwydd pan fydd cyfrifon yn cael eu tynnu oddi ar y llwyfan, yn aml oherwydd achosion cronus o dorri telerau gwasanaeth. Cyfeirir at hyn weithiau fel 'dad-lwyfannu'. Mae'r mesurau lliniaru hyn yn cael eu defnyddio mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac mewn ymateb i amrywiaeth o niweidiau a chynnwys troseddol ar wasanaethau – nid yw'r dystiolaeth effeithiolrwydd a drafodir isod yn canolbwyntio ar dynnu i lawr yr hyn sy'n deillio o gamwybodaeth a thwyllwybodaeth yn benodol.

Tystiolaeth effeithlonrwydd

Yn seiliedig ar ddadansoddiad o adroddiadau cydgysylltiedig Facebook ei hun ar ymddygiad annilys, roedd y ffordd fwyaf cyffredin roedd Facebook yn canfod ymddygiad annilys wedi ei gydlyn yn deillio o rwydweithiau ac actorion hysbys, gan gynnwys ymchwiliadau blaenorol gan Facebook. Gallai hyn awgrymu bod actorion gwael yn tueddu i aildroseddu, ac nad yw dileu cynnwys neu gyfrif ar ei ben ei hun yn ddigon o ataliad.⁸²

Costau a risgiau

Yn fwy cyffredinol, gall tynnu cyfrif i lawr wthio defnyddwyr a rhwydweithiau ar lwyfannau llai, mwy eithafol. Er enghraifft, ar ôl digwyddiadau 6 Ionawr 2021 yn yr Unol Daleithiau, denodd Gab dros 2 filiwn o ddefnyddwyr newydd ym mis Ionawr 2021, y twf misol mwyaf yn hanes y gwasanaeth.⁸³ Canfu astudiaeth a oedd yn edrych ar effeithiau dad-lwyfannu ar rwydweithiau cymdeithasol, er bod atal defnyddwyr yn barhaol yn helpu i ddiogelu'r gwasanaeth a oedd yn dad-lwyfannu, bod gan ddefnyddwyr a ataliwyd ac a oedd yn symud i lwyfannau amgen gynulleidfaoedd llai ar y llwyfan newydd ond eu bod yn fwy gweithredol ac yn dod yn fwy gwenwynig.⁸⁴ Nododd astudiaeth arall ganlyniadau anfwriadol eraill yn sgil dad-lwyfannu cyfrifon, gan gynnwys creu 'cyfrifon gweision bach' sy'n cyflawni'r rôl o ledaenu'r deunydd twyllwybodaeth sy'n cael ei gynhyrchu gan ddylanwadwr heb lwyfan oddi ar y plattform a chynyddu gwydnwch grŵp sy'n cael ei dargedu drwy ddad-lwyfannu drwy eu hannog i arallgyfeirio eu presenoldeb ar draws gwasanaethau.⁸⁵

Offer dosbarthu iaith awtomataidd

Beth ydyw?

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae datblygu offer awtomataidd sy'n seiliedig ar ddysgu peiriannol a thechnegau cyfrifiadureg eraill, i ganfod camwybodaeth a thwyllwybodaeth ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol wedi ehangu'n sylweddol. Mae llawer o astudiaethau'n archwilio modelau ac offer sydd wedi eu hyfforddi ar sail setiau data sy'n bodoli'n barod gan wasanaethau eu hunain.

⁸² <https://www.isdglobal.org/wp-content/uploads/2020/10/Hoodwinked-2.pdf>

⁸³ Thiel, David; a McCain, Miles; 2022, [Gabufacturing Dissent: An in-depth analysis of Gab](#), *Stanford Cyber Policy Review*, tt. 2-7.

⁸⁴ Ali, Shiza; Saeed, Mohammad Hammas; Aldreabi, Esraa; Blackburn, Jeremy; De Cristofaro, Emiliano; Zannettou, Savvas; a Stringhini, Gianluca; 2021, [Understanding the Effect of Deplatforming on Social Networks](#), 13^{FED} *Cynhadledd Gwyddoniaeth Gwe ACM 2021, 21-25 Mehefin*,

⁸⁵ Innes, H.; ac Innes, M., 2021. [De-platforming disinformation: conspiracy theories and their control](#), *Information, Communication & Society*, 26:6, tt. 1262-1280

Tystiolaeth effeithlonrwydd

Mae llawer o offer awtomataidd a seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial yn wynebu nifer o gyfyngiadau critigol: yn gyntaf, mae angen nifer sylweddol o enghreifftiau o ddata arnynt i ddysgu tasgau penodol, nid oes ganddynt y “cyd-destun byd-eang” sydd ei angen i ddeall cynnwys sy’n fwriadol gamarweiniol⁸⁶, a gall y diffyg cyd-destun hwn arwain at “ddiffyg synnwyr cyffredin” wrth wneud penderfyniadau.⁸⁷

Costau a risgiau

Nid yw llawer o systemau gwirio ffeithiau awtomatig yn ddigon aeddfed i weithredu heb oruchwyliaeth ddynol, ac mae llawer wedi cael eu hyfforddi ar gronfeydd data sydd eisoes wedi dyddio wrth i’r cylch newyddion symud yn gyflym.⁸⁸ Gall problemau godi hefyd pan fydd y data a ddefnyddir i hyfforddi’r systemau hyn yn dioddef problemau ansawdd, fel data ar goll, data rhagfarnllyd, data wedi ei lygru neu ddata wedi ei labelu’n anghywir.⁸⁹

Terfynau anfon ymlaen sy’n seiliedig ar fetadata

Beth ydyw?

Mae terfynau anfon ymlaen yn cyfyngu ar y nifer o weithiau y gellir anfon neges ymlaen rhwng cyfrifon ac weithiau'n labelu negeseuon sydd wedi eu hanfon ymlaen dros nifer penodol o weithiau.

Tystiolaeth effeithlonrwydd

Fodd bynnag, mae diffyg mynediad ymchwilwyr at y mathau o ddata sy’n cael eu dal gan wasanaethau yn unig wedi ei gwneud yn anodd mesur effeithiolrwydd y mesurau lliniaru hyn ac a yw’n strategaeth ymarferol yn ehangach.⁹⁰ Canfu astudiaeth a oedd yn asesu effeithiolrwydd y terfynau anfon ymlaen hyn yn India, Indonesia a Brasil eu bod yn lleihau lledaeniad gwybodaeth yn sylweddol, ond nad ydynt yn atal lledaeniad camwybodaeth drwy grwpiau cyhoeddus pan fydd y cynnwys yn cyrraedd lefelau firaol uchel.⁹¹

Atebion ar ffurf gemau

Beth ydyw?

Gemau sy’n cael eu datblygu i ddatblygu ymwrthedd gwybyddol yn erbyn mathau cyffredin o gam-drin y gall pobl ddod ar eu traws ar-lein yw ymyriadau gwrth-gamwybodaeth ar ffurf gemau. Mae

⁸⁶ Islam, Rafiqul MD; Liu, Shaowu; Wanf, Xianzhi; a Xu, Guandong; 2020, [Deep learning for misinformation detection on online social networks: a survey and new perspectives](#), *Social Network Analysis and Mining*,

⁸⁷ Canolfan Ragoriaeth Cyfathrebu Strategol NATO, 2022, [The Role of AI in the Battle Against Disinformation](#),

⁸⁸ Caled, Danielle; a Silvia, Mario J.; 2021, [Digital Media and Misinformation: An Outlook on Multidisciplinary Strategies Against Manipulation](#), *Journal of Computational Social Science*, 5, tt. 123-159,

⁸⁹ Ofcom (Winder, Phil; Marsden, Luke; a Rotundo, Enrico), 2023: [Automated Content Classification \(ACC\) Systems](#), cyhoeddwyd yn Ionawr 2023

⁹⁰ Gorksy, Jacob; a Woolley, Samuel; 2021, [Countering Disinformation and Protecting Democratic Communication on Encrypted Messaging Applications](#), Sefydliad Brookings,

⁹¹ Melo, Philippe Vieira; Carolina, Garimella; Kiran Vaz de Melo, Pedro; a Benevenuto, Fabrício; 2019, [Can WhatsApp Counter Misinformation by Limiting Message Forwarding?](#), *Political Communication*,

rhai enghreifftiau'n cynnwys y gemau *Bad News*, *Go Viral!* a *Harmony Square*, gyda'r olaf yn canolbwyntio ar ddatgelu tactegau cyffredin a ddefnyddir mewn camwybodaeth etholiadol.⁹²

Tystiolaeth effeithlonrwydd

Canfu astudiaeth fod chwarae'r gêm *Harmony Square* yn lleihau dibynadwyedd canfyddedig newyddion ffug yn sylweddol, yn cynyddu hyder chwaraewyr yn eu gallu i adnabod newyddion ffug yn sylweddol, ac yn lleihau parodrwydd y cyfranogwyr eu hunain i rannu newyddion ffug yn sylweddol.⁹³ Canfu astudiaeth debyg ar y gêm *Bad News* hefyd fod ei chwarae yn cynyddu gallu cyfranogwyr i sylwi ar gamwybodaeth ac yn cynyddu lefel eu hyder ar eu barn eu hunain ynghylch a yw cynnwys yn gamwybodaeth ai peidio.⁹⁴ Defnyddiodd astudiaeth wahanol gêm llythrennedd newyddion, *Fakey*, i archwilio effaith metrigau ymgysylltu cymdeithasol (hoffi, rhannu a sylwadau) ar y cwestiwn a yw unigolion yn hoffi ac yn rhannu cynnwys amheus, ac a fyddant yn gwirio ffeithiau ffynonellau llai amheus.⁹⁵ Canfu ymchwil i ddatblygu Prawf Rhagdueddiad i Gamwybodaeth, er bod *Bad News* yn lleihau rhagdueddiad unigolion i newyddion ffug ac yn lleihau naïfrwydd cyffredinol, gall y gêm greu mwy o ddrwgdybiaeth gyffredinol, neu or-amheuaeth.⁹⁶ At hynny, canfu astudiaeth cyn-argraffu a oedd yn ail-archwilio rhai astudiaethau o effeithiolrwydd gemau *Bad News* a *Go Viral!* nad oedd y ddwy gêm yn gwella gallu cyfranogwyr i wahaniaethu yn erbyn camwybodaeth a thwyllwybodaeth, ond yn hytrach yn cynyddu nifer yr ymatebion "ffug" a wnaed i bob eitem newyddion, gan olygu bod y gemau'n gwneud cyfranogwyr yn fwy ceidwadol yn eu hasesiad o wirionedd eitemau newyddion.⁹⁷

Mesurau tarddiad cynnwys

Beth ydyw?

Nod mesurau tarddiad cynnwys, gan gynnwys manylion adnabod cynnwys a dyfrnodi, yw rhoi gwybodaeth i grewyr cynnwys a defnyddwyr am y cynnwys maent yn ei greu a'i ddefnyddio.

Un o'r mesurau mwyaf poblogaidd, safon C2PA, yw technoleg sy'n cofnodi gwybodaeth wedi ei llofnodi'n ddigidol am gynnwys, sy'n dangos o ble mae'r darn hwnnw o gyfryngau wedi dod a sut mae wedi cael ei olygu. Mae'r systemau hyn yn defnyddio rhwymiad cryptograffig cryf i gysylltu'r cyd-destun hwn â chynnwys, ond nid bwriad y dechnoleg yw penderfynu a yw'r ddelwedd ei hun yn wir neu'n ffug. Yn hytrach, mae'r dechnoleg yn galluogi defnyddwyr a chrewyr i weld yn dryloyw beth sydd wedi cael ei wneud i ddelwedd cyn ei chyhoeddi.⁹⁸ Mae safon C2PA yn cyfuno dyfrnodi cryptograffig a phlannu metadata.

⁹² Roozenbeek, Jan; a Van Der Linden, Sander; 2020, [Breaking Harmony Square: A game that "inoculates" against political misinformation](#), *Harvard Kennedy School Misinformation Review*,

⁹³ Roozenbeek, Jan; a Van Der Linden, Sander; 2020, [Breaking Harmony Square: A game that "inoculates" against political misinformation](#), *Harvard Kennedy School Misinformation Review*,

⁹⁴ Basol, Melissa; Roozenbeek, Jan; a Van Der Linden, Sander; 2020, [Good News about Bad News: Gamified Inoculation Boosts Confidence and Cognitive Immunity Against Fake News](#), *Journal of Cognition*, 3:1,

⁹⁵ Avram, Mihai; Micallef, Nicholas; Patil, Sameer; a Menczer, Filippo; 2020, [Exposure to social engagement metrics increases vulnerability to misinformation](#), *Harvard Kennedy School Misinformation Review*,

⁹⁶ Maertens, Rakeon, et al.; 2023, [The Misinformation Susceptibility Test \(MIST\): A psychometrically validated measure of news veracity discernment](#), *Behaviour Research Methods*, 56, tt. 1863 - 1899

⁹⁷ Modirrousta-Galian, A. a Higham, P. A., 2022, [Gamified Inoculation Interventions Do Not Improve Discrimination Between True and Fake News: Reanalyzing Existing Research With Receiver Operating Characteristic Analysis](#), *PsyArXiv*

⁹⁸ Halford, Charlie, 2024. [Mark the good stuff: Content provenance and the fight against disinformation](#), *BBC Research and Development*, cyhoeddwyd 5 Mawrth 2024

Er bod rhai mesurau tarddiad cynnwys yn darparu cofnod gweledol o darddiad delwedd neu ddarn o gynnwys, nid oes yn rhaid i rai mesurau tarddiad cynnwys, fel mathau o ddyfrnodi, fod yn hawdd eu hadnabod yn gyhoeddus o reidrwydd. Gall dulliau dyfrnodi gynnwys ymgorffori gwybodaeth mewn cynnwys amlgyfrwng digidol y gellir ei ganfod neu ei echdynnu gan beiriant at amrywiaeth o ddibenion, gyda thechnegau'n cynnwys dyfrnodi metadata, dyfrnodi cydrannau amledd, dyfrnodi cryptograffig, a dyfrnodi ystadegol.⁹⁹

Tystiolaeth effeithlonrwydd

Mae effeithlonrwydd y technegau hyn a pha mor agored i ymosodiad ydynt yn aml yn dibynnu ar fformat y dyfrnod a'i leoliad. Er enghraifft, gall dyfrnodau metadata fod yn gyfyngedig o ran effeithlonrwydd, gan fod llawer o wasanaethau ar-lein a dulliau rhannu ffeiliau yn gallu tynnu'r metadata o ffeiliau, ac mae'n gymharol hawdd golygu, dileu neu addasu metadata fel arall. Gall fod yn anodd neu'n amhosibl tynnu dyfrnodau cryptograffig o gynnwys heb ddifrodi'r cynnwys ac maent yn aml yn anweledig neu'n amhosibl eu canfod drwy olwg neu sain arferol, gan gadw gwerth gwreiddiol y cynnwys. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu nad yw defnyddwyr a chrewyr o reidrwydd yn cael gwybodaeth am darddiad cynnwys sydd wedi ei nodi â dyfrnod fel hyn, sy'n golygu y gellir twyllo neu eu trin o hyd.¹⁰⁰

⁹⁹ Vasse'i, Ramak Molavi; ac Udoh, Gabriel, 2024. [In Transaprency We Trust? Evaluating the Effectiveness of Watermarking and Labelling AI-Generated Content](#), Mozilla Foundation, cyhoeddwyd 26 Chwefror 2024

¹⁰⁰ Vasse'i, Ramak Molavi; ac Udoh, Gabriel, 2024. [In Transaprency We Trust? Evaluating the Effectiveness of Watermarking and Labelling AI-Generated Content](#), Mozilla Foundation, cyhoeddwyd 26 Chwefror 2024

Crynodeb

Bylchau Ymchwil

Drwy gynnal yr adolygiad llenyddiaeth hwn, rydym wedi nodi sawl bwlch yn y llenyddiaeth.

Tystiolaeth sy'n benodol i'r Deyrnas Unedig

Fel rheoleiddiwr yn y Deyrnas Unedig, mae gennym ddiddordeb arbennig mewn dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar gyd-destun y Deyrnas Unedig.

Er bod rhywfaint o dystiolaeth ar gael o gyd-destun y Deyrnas Unedig ar ba mor gyffredin yw camwybodaeth, twyllwybodaeth a damcaniaethau cynllwynio, ac ar ffactorau a allai wneud unigolion yn fwy agored i'r ffenomenâu hyn, prin yw'r dystiolaeth sy'n benodol i'r Deyrnas Unedig ar effeithiolrwydd mesurau lliniaru.

Yn gyffredinol, prin yw'r dystiolaeth ar effeithiolrwydd ymyriadau yn erbyn camwybodaeth a thwyllwybodaeth y tu allan i gyd-destun yr Unol Daleithiau. Canfu adolygiad systematig o ymyriadau yn erbyn camwybodaeth am COVID-19 fod 72% o'r ymyriadau a oedd wedi eu cynnwys yn yr astudiaeth wedi cael eu profi ar gyfranogwyr o'r Unol Daleithiau, a dim ond 7% o'r ymyriadau a oedd wedi eu cynnwys a brofwyd ar boblogaethau y tu allan i'r Unol Daleithiau, Canada ac Ewrop. Ar ôl yr Unol Daleithiau, y Deyrnas Unedig oedd y boblogaeth fwyaf cyffredin nesaf lle'r oedd ymyriadau wedi cael eu profi, gyda 14% o ymyriadau a oedd wedi eu cynnwys yn yr astudiaeth wedi cael eu profi ar boblogaethau'r Deyrnas Unedig.¹⁰¹

Achosiad

Er bod llawer o astudiaethau'n awgrymu cysylltiadau rhwng gwahanol ffactorau demograffig, personol neu gynnwys a chamwybodaeth, twyllwybodaeth a damcaniaethau cynllwyn, ychydig iawn o dystiolaeth sydd o unrhyw gysylltiad achosol rhwng y ffactorau hyn. Mae hyn yn golygu mai ychydig iawn o syniad sydd gennym *pam* y gallai ffactor penodol fod yn gysylltiedig â chred mewn camwybodaeth, twyllwybodaeth a damcaniaethau cynllwyn.

Er bod y bwlch ymchwil hwn yn debygol o godi o'r anhawster wrth bennu achosiaeth, mae'n dal yn fwch sylweddol yn y sylfaen dystiolaeth

¹⁰¹ Smith, Rory; Chen, Kung; Winner, Daisy; Friedhoff, Stefanie; a Wardle, Claire; 2023, [A Systematic Review of COVID-19 Misinformation Interventions: Lessons Learned](#), *Health Affairs*, 42:12